# 11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

## Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Llywodraeth Cymru
3. Senedd Cymru
4. Gwybodaeth Bellach


## Cyflwyniad

**Senedd Cymru** yw corff **deddfwriaethol** Cymru. Ei rôl yw craffu ar waith Llywodraeth Cymru a dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

**Llywodraeth Cymru** yw corff **gweithredol** Cymru. Mae'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymreig eraill, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol.



Llun: Senedd Cymru
© Llun gan Nick Fewings ar Unsplash

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau gorff yr un fath â'r gwahaniaeth rhwng **Senedd y DU** a **Llywodraeth y DU**. Gall bod yn glir am y gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn fanteisiol i fudiadau'r trydydd sector, er mwyn sicrhau eich bod yn siarad â'r bobl gywir am y pethau cywir, a defnyddio pob cyfle posib i ddylanwadu ar benderfynwyr a dweud eich dweud. Bydd y daflen wybodaeth hon yn esbonio mwy am bob sefydliad, sut maen nhw'n gweithio, a chyfleoedd i'r trydydd sector ddylanwadu ar bob un ohonynt.

# Llywodraeth Cymru

## Ei chyfansoddiad

Mae **Llywodraeth Cymru** yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymreig eraill, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol. Penodir y Prif Weinidog gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ar enwebiad **Senedd Cymru**. Penodir y Gweinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol gan y Prif Weinidog, a'u cymeradwyo gan y Frenhines. Ni all nifer y Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion fod yn fwy na 12.

Y Cwnsler Cyffredinol yw Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol **Llywodraeth Cymru**; nid yw'n Weinidog Cymru ond mae'n aelod o **Lywodraeth Cymru**. Gall y Cwnsler Cyffredinol fod yn Aelod o'r Senedd ond nid yw'n gorfod bod; os nad yw'n Aelod o'r Senedd, gall gymryd rhan yn nhrafodion y **Senedd** ond ni all bleidleisio.

Mae'r broses yn golygu mai arweinydd y blaid sy'n ennill mwyafrif y seddau mewn Etholiad Senedd fel arfer sy'n Brif Weinidog, a'r blaid honno yw plaid y Llywodraeth. Fodd bynnag, os nad oes gan yr un blaid fwy o seddau na'r lleill, efallai bydd angen ffurfio llywodraeth glymblaid, fel y digwyddodd yn 2000 a 2007. Mewn achos o'r fath, bydd swyddi Gweinidogion fel arfer yn cael eu rhannu rhwng y ddwy blaid lywodraethol.

## Beth yw ei gwaith

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am:

- Wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar fywydau pob dydd pobl
- Datblygu a gweithredu polisïau
- Llunio is-ddeddfwriaeth (e.e. rheoliadau a chanllawiau statudol)
- Cynnig deddfwriaeth newydd.

Yn gyffredinol mae'n gyfrifol am redeg Cymru o un dydd i'r llall ym mhob maes polisi datganoledig. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Iechyd, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol, amaeth, trafnidiaeth a llawer mwy. Arweinir gwaith **Llywodraeth Cymru** gan y Gweinidogion a'i gyflenwi gan weision sifil.

## Perthynas â'r trydydd sector a chyfleoedd i ddylanwadu

Mae'r berthynas rhwng **Llywodraeth Cymru** a'r trydydd sector wedi'i nodi yn **Neddf Llywodraeth Cymru 2006**. Mae'n nodi:

> **'Rhaid i Weinidogion Cymru lunio cynllun (cynllun y sector gwirfoddol) sy'n amlinellu sut y maent yn bwriadu hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol perthnasol wrth gyflawni eu swyddogaethau'**

Mae'n amlinellu cydberthynas statudol rhwng y sector a **Llywodraeth Cymru**, ac yn gofyn i **Lywodraeth Cymru** adrodd ar y **Cynllun Sector Gwirfoddol** (a elwir hefyd yn gynllun y trydydd sector) yn flynyddol a'i adolygu'n rheolaidd.

Golyga hyn fod gan y sector fecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â **Llywodraeth Cymru** sy'n cynnwys cyngor partneriaeth y trydydd sector a weinyddir gan **CGGC** a chyfarfodydd Gweinidogion rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r sector.

Mae'r trefniant 'partneriaeth' rhwng **Llywodraeth Cymru** a'r sector yn golygu bod gan y sector:

- Lais cyfartal â **Llywodraeth Cymru** ynghylch y trefniadau y bydd gan **Lywodraeth Cymru** a'r sector gwirfoddol i weithio gyda'i gilydd
- Bydd yn cyfrannu at gyfnod ffurfiannol i lywio datblygiad polisïau a rhaglenni ar draws **Llywodraeth Cymru**, a chaiff ei gynigion ei asesu yn erbyn yr un meini prawf â'r sector cyhoeddus
- Bydd yn cyflwyno ei farn ar y gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu adnoddau a blaenoriaethau er mwyn dosbarthu adnoddau i'r sector gwirfoddol
- Bydd ganddo fynediad at ei wybodaeth a'i hyfforddiant ei hun ynghyd â gwasanaethau ac adnoddau meithrin gallu
- Bydd ganddo gyfleoedd i arwain yn y meysydd hynny lle y mae yn y sefyllfa orau i wneud hynny

Fel rhan o gynllun y sector gwirfoddol, mae pob **Gweinidog Llywodraeth Cymru** wedi ymrwymo i gwrdd â chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ddwywaith y flwyddyn. Hwylusir y cyfarfodydd hyn gan **CGGC**, daw'r cynrychiolwyr o rwydweithiau polisi amrywiol **CGGC**.

Ffyrdd pwysig eraill i fudiadau eu defnyddio wrth ddylanwadu ar **Lywodraeth Cymru** yw ymateb i ddogfennau ymgynghori ffurfiol a meithrin cydberthnasau â Gweinidogion, gweision sifil ac ymgynghorwyr arbenigol unigol.

# Senedd Cymru

## Ei chyfansoddiad

Mae'r **Senedd** yn cynnwys 60 Aelod o'r Senedd ac fe'i gweinyddir gan **Gomisiwn y Senedd**. Sefydlwyd y Comisiwn gan **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y **Senedd** yn cael yr adnoddau, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gomisiwn y Senedd mewn taflen wybodaeth ar wahân.
**11.7 Comisiwn y Senedd**

Etholir Aelodau'r Senedd fel a ganlyn: etholir un Aelod Senedd i gynrychioli pob un o'r 40 o etholaethau yng Nghymru gan ddefnyddio system y cyntaf i'r felin; etholir 20 Aelod Senedd arall o'r rhestrau rhanbarthol gan ddefnyddio System Aelod Ychwanegol, sy'n fath o gynrychiolaeth gyfrannol.

Mae etholiadau'r **Senedd** yn digwydd bob pum mlynedd (fel arfer), a chaiff pob unigolyn ddwy bleidlais. Mae'r bleidlais gyntaf ar gyfer yr unigolyn yr hoffent iddo gynrychioli eu hetholaeth (hon yw'r elfen gyntaf i'r felin, hynny yw, y sawl â'r mwyaf o bleidleisiau sy'n ennill); mae'r ail bleidlais ar gyfer plaid wleidyddol, a defnyddir canlyniadau'r bleidlais hon ar sail ranbarthol (rhennir Cymru yn 5 rhanbarth) i ddyrannu'r 20 sedd sy'n weddill i'r ymgeiswyr a bennwyd gan bob plaid.

Mae'r system yma yn ceisio sicrhau bod y nifer cyffredinol o seddau sydd gan bob plaid wleidyddol yn adlewyrchu'r cyfran o bleidleisiau y mae'r blaid honno'n ei derbyn.

## Beth yw ei gwaith

Rôl y **Senedd** yw dwyn y Llywodraeth i gyfrif a chraffu ar ddeddfwriaeth. Gall hyn gynnwys craffu ar sut mae Gweinidogion yn cyflawni eu swyddogaethau; craffu ar y gyllideb a'i chymeradwyo; craffu ar is-ddeddfwriaeth a llunio a chraffu ar gyfreithiau Cymru (a elwir yn Ddeddfau Senedd Cymru) a chyflwyno cynigion ar gyfer trethiant.

Gwneir hyn drwy sesiynau llawn a thrwy bwyllgorau. Cynhelir sesiynau llawn ar brynhawn ddydd Mawrth a dydd Mercher, a'r rhain yw fforymau penderfynu a llunio cyfreithiau'r **Senedd**.

Pwyllgor yw grŵp o Aelodau'r Senedd sy'n cwrdd i graffu ar bolisïau a deddfwriaeth. Mae pwyllgorau fel arfer yn gytbwys o ran pleidiau ac yn adlewyrchu nifer yr Aelodau Senedd sy'n rhan o bob plaid yn y **Senedd**.

## Perthynas â'r trydydd sector a chyfleoedd i ddylanwadu

Yn wahanol i'r gydberthynas statudol sy'n bodoli rhwng **Llywodraeth Cymru** a'r trydydd sector drwy **Gynllun y Sector Gwirfoddol**, nid oes perthynas ffurfiol rhwng y sector a'r **Senedd**. Fodd bynnag, mae llawer o gyfleoedd i'r trydydd sector ddylanwadu ar waith y **Senedd** a bwydo i mewn i'r gwaith hwn.

Mae'r rhain yn cynnwys:

### Y Broses Ddeisebu

Gwnaeth **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** greu system ddeisebu newydd o fewn y **Senedd**, sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ofyn i'r **Senedd** edrych ar faterion sy'n bwysig iddynt. Rhaid i unrhyw ddeiseb â 10 llofnod neu fwy sy'n syrthio o fewn cwmpas swyddogaethau'r Senedd gael ei hystyried gan Bwyllgor a fydd, yn ei dro, yn penderfynu ar sut i ymdrin â phob mater.



Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Broses Ddeisebu mewn taflen wybodaeth ar wahân.
**11.8 Lansio Deiseb**

### Ymchwiliadau Pwyllgor

Mae **Pwyllgorau'r Senedd** yn ymchwilio i faterion penodol sydd o fewn eu portffolios eang yn aml. Mae'r ymchwiliadau hyn yn tueddu i gynnwys proses ymgynghori cyhoeddus/galwad am dystiolaeth, a gall mudiadau gael eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgorau yn bersonol.

Mae cyfrannu at ymchwiliadau pwyllgor yn ffordd dda o gyflwyno eich barn i grŵp trawsbleidiol o Aelodau Senedd sy'n awyddus i glywed gan ystod eang o randdeiliaid er mwyn craffu ar waith **Llywodraeth Cymru**. Canlyniad pob ymchwiliad fydd adroddiad ac argymhellion i **Lywodraeth Cymru**.

## Lobïo Aelodau unigol o'r Senedd

Mae gan bob Aelod Senedd ddiddordeb mewn sicrhau y clywir barn y bobl y mae'n ei gynrychioli. Mae gan lawer o Aelodau'r Senedd eu meysydd diddordeb penodol hefyd, a gallant fod yn gynghreiriaid defnyddiol i gefnogi ymgyrchoedd mudiad. Mae gwneud yn siŵr bod pob Aelod Senedd yn cael gwybodaeth am unrhyw ymgyrchoedd rydych chi'n eu cynnal neu broblemau rydych chi am eu codi bob amser yn syniad da . Gellir gwneud hyn drwy anfon nodiadau briffio (gorau po fyrraf ); trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb neu ofyn i Aelod Senedd eich noddi neu siarad mewn digwyddiad yr ydych yn ei gynnal.

## Awgrymu syniadau ar gyfer deddfwriaeth

Gall y **Senedd** ddeddfwriaethu mewn 20 maes polisi datganoledig. Golyga hyn bod cyfle gan y trydydd sector i amlygu bylchau neu wendidau yn y ddeddfwriaeth gyfredol ac awgrymu cyfreithiau newydd y gellid eu gwneud yng Nghymru. Nid yw hon yn broses syml ac mae nifer o faterion i'w hystyried, gan nad oes hawl gan y **Senedd** i wneud cyfreithiau ym mhob maes polisi, ond serch hynny mae hwn yn gyfle i'r trydydd sector. Gall **Llywodraeth Cymru**, **Pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn** y **Senedd** gyflwyno syniadau ar gyfer deddfwriaeth newydd, ynghyd ag Aelodau unigol o'r Senedd os cânt eu dewis mewn pleidlais.

I gael rhagor o wybodaeth ar y pwnc hwn, gweler y taflenni gwybodaeth ar wahân:
**11.6 Creu Deddfwriaeth**

## Gwybodaeth Bellach

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
**Ffôn: 0800 2888 329**
www.wcva.org.uk

**Llywodraeth Cymru**
www.wales.gov.uk

**Senedd Cymru**
www.senedd.cymru

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.